Gweledigaeth dros

FFERMIO YN UCHELDIR CYMRU

NFU CYMRU

Rhagair y Llywydd

JOHN DAVIES

Mae ffermio yng Nghymru yn gweithredu mewn cyfnod o ansicrwydd dwys. Yn dilyn y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, mae yna ansicrwydd sylweddol parthed ein perthynas masnachol yn y dyfodol gyda'r UE a'r modd y mae Llywodraeth San Steffan yn dymuno gosod ei hun fel gwlad fasnachol annibynnol.

Yng Nghymru, mae yna amwysedd ar ffurf polisïau amaeth y dyfodol wrth i ni adael y Polisi Amaethyddol Cyffredinol (PAC), a'r hyn fydd yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer busnesau amaethyddol ym mhob cwr o Gymru.

Mae'r ansicrwydd hyn wedi ei ddwysáu gan heriau iechyd cyhoeddus ac economaidd pandemig byd-eang y coronafeirws sydd wedi herio gwydnwch ein cadwyni cyflenwi bwyd, a bydd yn rhaid ei ystyried ochr-yn-ochr â heriau newid yn yr hinsawdd a'r ymwybyddiaeth gynyddol o faterion amgylcheddol. Gyda hwn yn gefndir, rydym yn gweld ffocws llawer dwysach ar y modd yr ydym yn rheoli ein tiroedd yng Nghymru. Does yr un man yng Nghymru y profi'r sylw hyn yn fwy na'r ucheldir, lle mae dyfodol defnydd tir yn cael ei herio yn gynyddol.

Mae'r rhai ohonom sydd yn ffermio yn Ucheldir Cymru yn deall yr amryw fuddion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd yn deillio o'n gweithgarwch, ac mae cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel i safonau sy'n arwain y byd yn elfen sylweddol o'r rhain. Rydym yn cydnabod, fel ffermwyr yr Ucheldir, ein bod mewn sefyllfa arbennig i ddarparu ystod eang o allbynnau amgylcheddol ar gyfer ein cymdeithas, ond, gallwn ddim ond wneud hyn os yw ein busnesau yn gynaliadwy yn economaidd. Nid oes modd gor-bwysleisio'r angen i ffermio barhau i gynnal ein cymunedau gwledig, treftadaeth, diwylliant a'n iaith.

Yn y cyfnod colynnol hwn, credwn yn gryf y dylai'r rhai sydd yn byw ac yn gweithio yn ucheldir Cymru gael eu cynnwys wrth ffurfio'i ddyfodol. Mae arolwg Gweledigaeth Dros Ffermio yn Ucheldir Cymru NFU Cymru, sydd wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad hwn, wedi darparu'r cyfle i ffermwyr yr ucheldir wneud hynny.

Hoffwn ddiolch y fawr i bob un ohonoch sydd wedi cyfrannu eich amser a'ch barn i'r gwaith hwn. Rwyf yn enwedig o ddiolchgar i'r ymatebwyr a dynnodd sylw at fater iechyd a lles ffermwyr, gan ein hatgoffa ni oll yn y cyfnod ansicr hwn, o'r angen i ofalu am ein hunain a'n gilydd. Fel Llywydd NFU Cymru, hoffwn eich sicrhau bod yr heriau yr ydym yn wynebu, yn heriau y byddwn yn wynebu gyda'n gilydd. Byddwn ni yn NFU Cymru yn gwneud pob dim yn ein gallu i sicrhau llwybr tuag at ddyfodol cynhyrchiol, proffidiol a blaengar ar gyfer diwydiant amaethyddol Cymru a'r holl fuddion mae'n darparu.

Llywydd, NFU Cymru

Cadeirydd Bwrdd
AllFf NFU Cymru

KATH WHITROW

O gopa'r Wyddfa i Pen-y-Fan ym Mannau Brycheiniog, bryniau Clwyd i fynyddoedd y Preseli, mae rhai o dirweddau mwyaf gwerthfawr a thrawiadol Cymru wedi eu siapio a'u cynnal gan amaeth ucheldirol dros ganrifoedd

Mae oddeutu 80% o dir fferm Cymru wedi ei ddynodi yn Ardal Llai Ffafriol (AllFf). Yn cyffwrdd â phob cwr o'r wlad, mae ucheldiroedd Cymru yn lled adnabyddus am eu tirweddau hardd, eu cynhyrchiant o Gig Eidion ac Oen PGI Cymreig o ansawdd uchel, ein bridiau brodorol a'n systemau ffermio traddodiadol. Mae'r hinsawdd a'r tirwedd heriol yn cyfyngu'r ystod o gynhyrchion a ddaw o'r ardaloedd hyn. Mae eu natur diarffordd yn golygu eu bod yn bell o farchnadoedd, gydag isadeiledd a gwasanaethau yn creu mwy o anhawster.

Er hyn, mae'r ucheldir yn strategol bwysig i Gymru. Nid yn unig oherwydd eu tirwedd eiconig, ond o ganlyniad i'r gwasanaethau amgylcheddol pwysig maent yn darparu, megis dŵr glân a storio carbon ynghyd â'u ecoleg bwysig, a'r cymunedau, y dreftadaeth a'r diwylliant maent yn cynnal.

Hefyd, mae yna gysylltiad hanfodol rhwng systemau amaeth yn yr ucheldir a'r rhai ar diroedd isel: perthynas symbiotig sydd yn bodoli mewn symudiad stoc bridio a stôr i diroedd isel, gyda bwyd a phorthiant yn symud yn y cyfeiriad arall.

Mae ffermio gweithredol yn hanfodol ar gyfer cynnal cyfansoddiad ucheldir Cymru a'r ddarpariaeth barhaus o'r holl fuddion yma. Mae'r tirweddau yma yn rhai byw, gweithgar a deinamig, ac mae parhad yn eu rheolaeth ddim ond yn bosib os ydyw'n ymarferol yn economaidd a bod bobl yma i weithio'r tir.

Dros y blynyddoedd diwethaf, er eu ehangder a'u pwysigrwydd, rydym wedi gweld y pwyslais yn cael ei dynnu i ffwrdd o bolisïau amaeth ucheldirol. Wrth i'n perthynas ni gyda'r UE newid mae'r sail resymegol dros gynhyrchu da byw yn yr ucheldir yn cael ei fygwth, ac mae rhai yn gweld heriau amgylcheddol byd-eang, megis newid yn yr hinsawdd a cwymp bioamrywiaeth, fel achos dros newid defnydd tir heb roi unrhyw ystyriaeth i'r effeithiau ehangach.

Yn y cyfnod colynnol hwn i amaeth yng Nghymru, wrth i ni bontio i ffwrdd o'r PAC a thuag at bolisi amaethyddol 'Cymreig', hoffai Bwrdd ALlFf NFU Cymru sicrhau bod llais amaeth ucheldir Cymru i'w glywed yn glir yn y ddadl hon. Mae hon yn neges sydd wedi derbyn croeso mawr gan ffermwyr ucheldir Cymru, ac er y cyfyngiadau sydd arnom o ganlyniad i COVID-19, mae lleisiau ffermwyr o bob cwr o Gymru i'w clywed yn glir yn ein arolwg, gyda nifer anhygoel o ymatebion wedi eu derbyn.

Mae ffermwyr yr ucheldir wedi ein hatgoffa o'u cyfraniad digyffelyb i'w cymunedau gwledig ac i'r tirweddau a'r amgylchedd sydd mor annwyl iddynt. Maent wedi ymddiried ynom ni i gyfathrebu eu pryderon am y dyfodol, gan hefyd ddarparu gweledigaeth werthfawr i'r hyn, yn eu tyb hwythau, sydd angen fel fframwaith polisi er mwyn symud ymlaen.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganfyddiadau arolwg Gweledigaeth Dros Ffermio yn Ucheldir Cymru NFU Cymru. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Fwrdd AllFf NFU Cymru am hyrwyddo'r gwaith pwysig hwn yn eu siroedd hwythau. Rwyf yn falch iawn o gryfder a dyfnder yr ymateb, mi fydd yn ganolog i waith y Bwrdd AllFf wrth i ni symud ymlaen.

Ucheldir Cymru

Mae'r ucheldir o bwysigrwydd strategol i Gymru. Mae'r llefydd eiconig hyn yn dirweddau byw, gweithgar a deinamig, ac yn ganolog iddynt mae ffermio da byw, sydd wedi cynnal ein cymunedau ucheldirol diarfforddd ers canrifoedd.

Mae 80% o dir amaethyddol Cymru wedi ei ddynodi yn Ardal Llai Ffafriol (AllFf) – gan adlewyrchu'r amgylchiadau tirffurf a hinsawdd sydd yn medru cyfyngu dewisiadau amaethyddol.

Ffermio anifeiliaid yw'r weithgaredd economaidd pennaf gyda ffermwyr yn yr AllFf yn darparu ystod unigryw o gynhyrchion a gwasanaethau i gymdeithas.

Mae ffermio yn ucheldir Cymru hefyd wedi siapio ac yn darparu'r reolaeth barhaus i'n tirweddau Cymreig eiconig, sydd yn cynnal casgliad amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd gwahanol ac yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem megis dŵr a storio carbon, pethau yr ydym oll yn dibynnu arnynt.

Yn ganolog i gyfansoddiad cymdeithasol rhai o ardaloedd mwyaf diarfforddd Cymru, mae amaeth ucheldirol yn darparu cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae cyflogaeth uniongyrchol mewn amaeth mewn rhai ardaloedd gwledig hyd at 28% ac mae'r diwydiant amaethyddol hefyd yn darparu cyflogaeth anuniongyrchol i gyflenwyr nwyddau amaethyddol, contractwyr, a'r ystod eang o fusnesau y mae ffermwyr yn masnachu gydag hwy. Mae ffynonellau eraill o gyflogaeth gwledig, megis twristiaeth, hefyd wedi eu cysylltu yn annatod gydag amaeth.

Mae amaeth yn yr ucheldir o bwysigrwydd diwylliannol, gan ddarparu cadarnle ar gyfer yr iaith Gymraeg, ein bridiau brodorol o anifeiliaid, ac ystod o sgiliau traddodiadol megis plygu gwrych ac adeiladu welydd cerrig sych sydd mor nodweddiadol o dirweddau amaethyddol Cymru, ac yn cyfuno i greu 'ymdeimlad o le'.

Ucheldir Cymru: Ystadegau Allweddol

Datblygu Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru - Ein Dull Ni

Mae NFU Cymru wedi ymgysylltu â ffermwyr ar ddatblygiad gweledigaeth dros ffermio yn ucheldir Cymru. Amcan yr ymchwil hwn oedd i hyrwyddo'r rhan hollbwysig sydd gan amaeth ucheldirol i les economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru; i ddeall pryderon ffermwyr yr ucheldir dros y dyfodol ac i adnabod yr hyn sydd angen i ffurfwyr polisi wneud er mwyn darparu dyfodol cynhyrchiol, proffidiol a blaengar dros amaeth yn yr ucheldir.

Datblygwyd y weledigaeth hon gan bwyso ar arolwg NFU Cymru a gafodd ei gynnwys yn rhifyn mis Medi o'n cylchgrawn Yr Amaethwr, ac a fu ar gael ar-lein yn ddwyieithog ar wefan NFU Cymru rhwng mis Awst a mis Hydref 2020.

Casglwyd gwybodaeth sylfaenol am yr ymatebwyr drwy'r arolwg hefyd, gan ddefnyddio cwestiynau aml-ddewis yn bennaf, gyda nifer llai o gwestiynau penagored er mwyn deall gweithredoedd i wella'r amgylchedd; y cyfraniad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach; paratoadau ar gyfer Brecsit; bygythiadau i amaeth yr yr ucheldir, a'r prif ofynion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Cyfoethogwyd y dull hwn yn fawr gan safon yr ymatebion, gan alluogi dealltwriaeth llawer dyfnach. Mae rhai o'r sylwadau a ddaeth o'n cyfranogwyr wedi eu gwae drwy gweddill yr adroddiad hwn. Cyfoethogir yr adroddiad yn fwy fyth gydag esiamplau 'ar y tir' o bedwar astudiaeth achos ffermio ucheldirol yng Nghymru.

Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan 765 ffermwr, felly hwn yw'r arolwg hunan-ddewisol mwyaf erioed i NFU Cymru ymgymryd ag ef. Derbyniwyd ymatebion o bob sir yng Nghymru gan adlewyrchu'r ffaith bod yna dir AllFf ym mhob cwr o'n gwlad.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganfyddiadau a ddaeth o'r ymchwil hwn ac yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer ffordd ymlaen.

Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru NFU Cymru - Ystadegau Allweddol

- **765 o ymatebion wedi eu derbyn**
- **Bron 25% o'r ymatebwyr i'r arolwg dan 40 mlwydd oed. Roedd bron hanner rhwng 41 a 60 mlwydd oed, ac ychydig bach dros chwarter dros 61 mlwydd oed**
- **Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn ffermwyr defaid a gwartheg, treian yn ffermio defaid yn unig**
- **Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn denantiaid ar eu tir, naill-ai yn rhannol neu yn gyfan-gwbl**
- **Roedd gan 42% o'r ymatebwyr hawliau i bori tir comin**
- **O ran maint, roedd oddeutu treian yn ffermio ardal o dan 100ha; treian yn ffermio rhwng 101ha a 200ha, a treian arall yn ffermio ardal yn fwy na 201ha**

Cyfraniad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol amaeth yn ucheldir Cymru

Ceisiodd yr arolwg ddeall cyfraniad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ffermio mewn ardaloedd ucheldirol. Gofynnwyd i ffermwyr raddio'r rhan maent yn chwarae mewn amryw o feysydd o 'pwysig iawn' i 'ddim yn bwysig o gwbl':

- **99% o ymatebwyr yn teimlo bod gofalu am y tir naill-ai yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **96% yn teimlo bod eu rhan fel cynhyrchwyr bwyd naill-ai yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **96% yn credu bod rhedeg busnes wledig naill-ai yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **89% yn credu bod darparu buddion amgylcheddol ychwanegol yn bwysig iawn (55%) neu'n eithaf pwysig (34%)**
- **88% yn datgan ei fod yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig iddynt fod yn gyflogwyr gwledig**
- **85% yn datgan ei fod yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig eu bod yn geidwaid o dreftadaeth a diwylliant Cymru**

Yr economi amaethyddol yn yr ucheldir

Mae'r arolwg yn tanlinellu pwysigrwydd economaidd amaeth yn yr ucheldir. Roedd gan bron 40% o'r ymatebwyr drosiant blynyddol rhwng £76k-£250k.

Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cyflogi rhwng un a phum person yn uniongyrchol.

Mynegodd treian o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi neu yn prynu oddi-wrth rhwng 21 a 50 o fusnesau eraill; gydag un o phob deg ymatebydd yn datgan eu bod yn prynu oddi-wrth 51 neu fwy o fusnesau eraill.

O safbwynt hyfywedd ffermydd:

- **Mynegodd 95% o'r ffermwyr yn yr arolwg bod cynhyrchu bwyd naill-ai yn bwysig iawn neu yn eithaf pwysig**
- **Mynegodd 91% o'r ymatebwyr bod cefnogaeth ariannol uniongyrchol (e.e. CTS_ yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Mynegodd ychydig dan dwy dreian o'r ffermwyr yn yr arolwg bod Glastir yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Mynegodd dwy dreian o'r ffermwyr bod grantiau (megis y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy a'r Grant Busnes Fferm) yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Mynegodd 52% o'r ymatebwyr bod cyflogaeth oddi-ar y fferm yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Roedd incwm o arallgyfeirio yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig i ychydig dros hanner yr ymatebwyr**

NFU CYMRU GWELEDIGAETH DROS FFERMIO YN UCHELDIR CYMRU

TEULU DAVIES

Sir Benfro

Mae teulu Davies yn ffermio yng Nghwm Gwaun ym mryniau'r Preseli. Mae'r fferm ddefaid yn darparu bywoliaeth ar gyfer tair cenhedlaeth. Mae Vivian, sydd wedi byw ar y fferm ers 75 mlynedd, yn gweithio gyda'i fab Hedd a'i wyrion Llyr, 22, a Gethin sydd yn 20. Mae'r teulu yn gweithio'n dda gyda'i gilydd gyda phob un yn cytuno ei fod yn beth braf cael gweithio gyda'u teulu

Daeth y teulu i'r fferm yn y 1940au, ac mae'r fusnes wedi datblygu dros amser. Tan 15 mlynedd yn ôl roedd y teulu yn godro gwartheg ynghyd â magu defaid. Nawr maent yn wyna 1100 o ddefaid magu ac yn prynu oddeutu 900 o wyn stôr yn lleol, sydd yn pori dros 340 erw o laswelltir.

Mae buarth y fferm yn eistedd ar uchelder o 900 troedfedd, gyda thiroedd uchaf y fferm yn codi i 1000 troedfedd. Dywedodd Vivian "Ar ddiwrnod clir gallwch chi weld yr Iwerddon mewn un cyfeiriad a mynyddoedd Eryri yn y cyfeiriad arall." Mae gweithio'r tir yn y gornel hwn o Gymru yn golygu bod y tywydd, ar adegau, yn medru creu problemau. "Mae'r gaeafau'n hir yma; mae'r tymor pori'n fyr" dywedodd Hedd.

Oddi-ar y fferm mae Hedd yn rhedeg busnes sganio defaid sydd yn ei gadw'n brysur dros misoedd y gaeaf. Mae'n sganio tua 40,000 dafad pob blwyddyn. Mae Gethin a Llyr yn treulio'r hafau yn cneifio, gan gneifio 22,000 rhwng y ddau ohonynt llynedd. Mae hyn yn helpu darparu incwm ychwanegol a chefnogi'r fferm. Dywedodd Hedd "I lawer, dyma'r dull modern o ffermio, mae'n rhaid i chi arallgyfeirio a chael incwm ychwanegol yn gyfochrog â'r fferm."

Mae'r teulu yn feddylgar o bolisïau amaethyddol y dyfodol, dywedodd Hedd "Yr her fawr fydd i ddysgu

ffermio heb y Taliad Sengl. Gyda dau bachgen ifanc adre' yn eisiau dilyn ar ein holau, mae'n bwysig bod y llywodraeth yn gwneud hyn yn gywir. Y peth mwyaf yr hoffem weld yw pris teg am y bwyd 'dyn ni'n ei gynhyrchu."

Mae Llyr a Gethin yn gweld dyfodol ar gyfer eu hunain yn y diwydiant amaethyddol. Fel un o'r ieuengaf o deulu Davies i ffermio'r tir, mae Llyr yn optimistaidd dros y dyfodol: "Mae'n rhaid i ni gymryd beth a ddaw. 'Dyn ni wedi dysgu i oresgyn heriau, yn gweithio'r tir y gorau medrwn."

Mae'r fferm yn cefnogi busnesau lleol, gyda'r arian sydd yn dod i mewn i'r fferm yn mynd yn ôl allan i'r economi leol. Mae'r gymuned leol hefyd yn bwysig, ynghyd a'r iaith. Dywedodd Vivian "Y Gymraeg yw'r prif iaith sy'n cael ei siarad yn y gymuned amaethyddol fan hyn. Mae'n cael ei siarad cenhedlaeth wedi cenhedlaeth, mae yna barhad, ac mae hynny'n hollbwysig."



70%

Roedd 70% o ymatebwyr yn cyflogi rhwng un a phump o bobl yn uniongyrchol

40%

Roedd gan 40% o ymatebwyr drosiant blynyddol o rhwng £76k a £250k

"Dwi'n gweld fy ngwaith fel ffermwr yn gyfuniad o gydrannau gwahanol. Cynhyrchu cig oen o safon, cynnal y tirwedd a chadw'r iaith yn fyw. Dyna pam fod ffermio yn bwysig."

- Llyr Davies

NFU CYMRU GWELEDIGAETH DROS FFERMIO YN UCHELDIR CYMRU

Arallgyfeirio yn yr ucheldir

Casglwyd gwybodaeth ar arallgyfeirio ar ffermydd yn yr arolwg. Mynegodd 43% o'r ymatebwyr eu bod yn rhedeg elfen arallgyfeirio anamaethyddol yn rhan o'u busnes. Ymysg y rhai oedd yn rhedeg busnesau arallgyfeirio, roedd

- **43% wedi arallgyfeirio i ynni adnewyddadwy, roedd gan**
- **42% lety ymwelwyr, roedd**
- **10% yn ychwanegu gwerth trwy werthu yn uniongyrchol a**
- **9% yn rhedeg busnesau coedwigaeth.**

Gofynnwyd i'r ffermwyr ystyried i ba radd yr oedd ystod o ffactorau penodol yn eu rhwystro rhag arallgyfeirio neu arallgyfeirio yn bellach. Y tri rhwystr mwyaf a fynegwyd oedd

- **adnoddau ariannol (70%)**
- **problemau cynllunio (66%)**
- **a phrinder amser i'w wneud (63%)**

Mynegodd llai o ymatebwyr bod sgiliau a gwybodaeth yn rwystr (30%), a mynegwyd bod ymgymryd ag ymchwil i'r farchnad (27%), a chael mynediad i gyngor a chefnogaeth (24%), yn rwystrau sylweddol neu eithaf sylweddol.

EMLYN ROBERTS

Meirionnydd

Mae Emlyn Roberts yn gweithio'n galed, gan wneud y gorau o'i amgylchfyd ar fferm fynydd 450 hectar ei deulu ger Dolgellau. Ef yw'r pedwerydd cenhedlaeth o'i deulu i ffermio yno ers 1913. Gan ffermio mewn partneriaeth gyda'i rieni, mae Emlyn yn byw ar y fferm gyda'i wraig a'u dau blentyn

Gydag oddeutu 350 hectar yn dir uchel – rhwng 1400 a 3000 troedfedd, disgrifia Emlyn y fferm fel un 'top heavy.' Nid yw ffermio'r tirwedd hyn yn dod heb ei heriau, ond mae Emlyn yn hen gyfarwydd ag ef. Polisi canolog y fferm yw i stocio'r tir gydag anifeiliaid sydd wedi eu bridio i oroesi a ffynnu mewn tirwedd anfaddeugar – Defaid Mynydd Cymreig a Gwartheg Duon Cymreig. Dywed Emlyn "Ein nod yw cadw'r gwartheg a'r defaid yn rai caled. Mae'n llawer mwy effeithlon i gadw anifail sydd yn ffynnu'n naturiol oddi-fewn i'w gynefin."
Gan bori mynydd Aran Fawddwy, mae'r defaid ar dir y mynydd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, heblaw am oddeutu 6 wythnos dros gyfnod wyna. Mae'r rhan fwyaf o'r diadelloedd a'r buchesi yng Nghymru yn deillio o'r ucheldiroedd, ac mae hyn, ym marn Emlyn, yn rhan o'r rheswm bod yr ucheldir mor hynod o bwysig.

Mae Emlyn o'r feddylfryd ei fod yn haws i weithio gyda'r amgylchedd nac yn ei erbyn, felly ers 27 mlynedd mae'r fferm wedi cyfranogi mewn cynlluniau amgylcheddol. Mae hyn wedi cael effaith bositif, gyda dychweliad y grugiar i'r ucheldir grugog a rheolaeth gweirgloddiau blodeuog unigryw yn rhai o'r uchafbwyntiau. Mae hefyd wedi cynorthwyo gydag adfer rhai o'r terfynau caeau traddodiadol, gan gynnwys ail-adeiladu welydd cerrig a phlannu gwrychoedd ac ardaloedd o dir sydd yn heriol i'w ffermio.

Mae ynni adnewyddadwy yn ddull arallgyfeirio pwysig ar gyfer y fusnes, gan ddarparu incwm hirdymor i ategu

> *Mae bryniau ac ucheldir Cymru ychydig yn wahanol. 'Dyn ni'n griw go galed ac yn gwneud ein gorau glas i oroesi, ond 'dyn ni'n wynebu rhai heriau go fawr."*
>
> *- Emlyn Roberts*

menter defaid a gwartheg y teulu. Mae cyfradd uchel o dywydd glaw yn rhan annatod o ffermio ar dir o bron at 3,000 troedfedd, felly yn hytrach na gwawdio'r elfennau, fe adeiladodd y teulu gynllun hydro-drydan llif yr afon 350kW. Mae yna foeler bio-màs yn gwresogi'r tŷ fferm a dwy system o baneli solar bychan.

Mae Dafydd mab Emlyn, a fu'n astudio amaethyddiaeth, wedi dychwelyd i'r fferm. Dywedodd Emlyn "Mae'n hanfodol bwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol bod unrhyw gynllun cymorth newydd yn darparu sefydlogrwydd i leddfu anwastadedd y ffordd sydd o'n blaenau. Mae'n bwysig i'r llywodraeth wrando i'r hyn sydd gan bobl yr ucheldir i'w ddweud. Ni sydd yn adnabod y tir orau ac yn y diwedd, ni fydd yn gorfod byw gyda chanlyniadau'r penderfyniadau hyn."

43%

Roedd 43% o ymatebwyr yn gweithredu busnes wedi arallgyfeirio an-amaethyddol

---

43%

Roedd gan 43% o ymatebwyr oedd wedi arallgyfeirio gynllun ynni adewyddadwy

> *Mae'r bobl sydd yn gweithio yng nghefn gwlad yn cynnal teuluoedd, busnesau a chymunedau. Nhw sydd yn cynnal yr iaith Gymraeg."*
>
> *- Emlyn Roberts*

Amgylchedd yr ucheldir

O safbwynt rheoli amgylchedd yr ucheldir, dywedodd dros hanner (54%) yr ymatebwyr eu bod yn gyfrannog i gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir.

Datganodd dros 80% o'r ffermwyr yn yr arolwg eu bod wedi ymgymryd ag un neu fwy gweithgaredd er mwyn gwella'r amgylchedd dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, gan ddisgrifio bron at 70 o weithredoedd amgylcheddol gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i greu, adfer neu rheoli gwrychoedd a phlannu coed, rheoli coetiroedd, a rheoli a chreu cynefinoedd.

Ynghyd â hyn, cyfeiriwyd at ystod o weithredoedd eraill i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, o gynhyrchu ynni adnewyddadwy i ymneilltuo carbon drwy rheoli mawndiroedd a storfeydd carbon eraill. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at weithredoedd i leihau effaith carbon eu systemau ffermio, fel lleihau'r amser a gymerir i orffen anifeiliaid, gwelliannau genynnol, defnydd effeithlon o fewnbynnau megis bwydydd, gwrtaith a thanwydd, a gwerthu yn lleol er mwyn lleihau'r milltiroedd bwyd.

Roedd yna hefyd weithredoedd er mwyn gwella ansawdd dŵr, gan gynnwys creu coridorau glan afon, gwelliannau i isadeiledd y ffermydd gan gynnwys storfeydd, gwaith ar fylchau llidiart, creu traciau fferm ac ardaloedd caled i fwydo anifeiliaid a cheuffosydd, ynghyd â chreu a rheoli llynnoedd, cynllunio i reoli nitradau a thaenu maethynnau yn fanwl gywir.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at newidiadau mewn cyfundrefnau pori, pori gyda gwartheg a bridiau brodorol i reoli cynefinoedd ucheldirol. Crëwyd a rheolwyd nifer o gynefinoedd, er enghraifft gan ddefnyddio cymysgeddau hadau i hybu peillwyr ac adar.

Nododd 41% o'r ymatebwyr eu bod wedi newid eu busnesau er mwyn cyfranogi mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Roedd y rhai a newidiodd eu busnesau i sicrhau cytundeb cynllun amaeth-amgylcheddol yn teimlo eu bod yn fwy tebygol o weld effaith bositif, neu dim effaith, o safbwynt faint o gyfalaf oedd ar gael i fuddsoddi yn y fferm, y nifer o fusnesau gwledig yr oeddent yn cefnogi neu'r nifer o bobl a gyflogwyd ganddynt, yn hytrach nag effaith negyddol.



EDWIN NOBLE

Canolbarth Gwynedd

Ym mryniau Eryri, Edwin Noble yw'r drydydd genhedlaeth i ffermio'r tir. Mewn partneriaeth gyda'i fab William, maent yn ffermio oddeutu mil o ddefaid, Defaid Mynydd Cymreig yn bennaf, a 30 o wartheg magu

Mae buarth y fferm ar uchder o oddeutu 550 troedfedd, mae'r tir yn codi i 2,200 troedfedd ar ei uchaf gyda golygfeydd o gopa'r Wyddfa ar ddiwrnod clir. Dywedodd Edwin “mae yna rhywbeth go hyfryd am fynd i fyny'r mynydd a gweld y defaid yn pori'n rhydd.”

Mae'n ardal o law uchel, felly mae llawer o'r tir yn laswelltir asidig. Mae llawer ohono yn tyfu ar fawn, felly nid yw'r fferm yn medru cynnal cyfraddau stocio uchel. “ Mae ffermydd fel hon yn ymylol iawn, 'does yna fawr o opsiynau am yr hyn y medrem ni ffermio.”

Gan weithio mewn partneriaeth â'r tirwedd mae Edwin a'i fab yn cynhyrchu wyn ysgafn o'r ansawdd gorau. Bu'r fferm mewn nifer o gytundebau cadwraethol ers y 2000au cynnar, ac o ganlyniad mae nifer y defaid wedi syrthio dros y blynyddoedd, yn unol â gofynion y cytundebau. Canlyniad hyn yw bod yr wyn nawr ychydig yn drymach, gydag Edwin yn anelu i gael y rhan fwyaf ohonynt dros 30kg. Nododd Edwin bod yr heriau mwyaf mae'n wynebu fel arfer yn perthyn naill-ai i'r tywydd nei i bolisïau.

“Fel ffermwr, 'dwi eisiau cynhyrchu bwyd a ffermio yn broffidiol. Mae gen i rai pryderon am gyfeiriad polisïau'r dyfodol gyda'r sylw yn symud i ffwrdd o ffermwyr yn cynhyrchu bwyd. Mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng yr amgylchedd a chynhyrchu bwyd. Heb hyn, bydd

> *Byddai'n gywilyddus pe na tasai yna ddefaid ar y mynyddoedd yma, nhw sydd yn gwneud i'r mynyddoedd edrych fel ag y mae nhw. Mae'r defaid yn rhan annatod o Eryri.”*
>
> *- Edwin Noble*

ffermydd ymylol yn yr ucheldir fel yr ydym yn eu hadnabod yn diflannu."

Dyweda "Hoffwn i ucheldir Cymru fod yn fan lle mae modd i'r genhedlaeth nesaf ffermio'n broffidiol. 'Dwi'n pryderu bod yna ieuenctid yn gadael ein ucheldiroedd gwledig er mwyn chwilio am waith, ac wedi iddynt fynd, yn aml iawn dydyn nhw ddim yn dychwelyd. Mae'r ucheldir yn le hyfryd i fyw, 'dwi'n hoff o fod yn rhan o gymuned fechan, ond mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod yn fyw a chynaliadwy ar gyfer y cenedlaethau a ddaw ar ein holau."

54%

Roedd 54% o ymatebwyr yng nghynllun Glastir

70

Disgrifwyd 70 gweithgaredd amgylcheddol gwahanol gan ymatebwyr

NFU CYMRU GWELEDIGAETH DROS FFERMIO YN UCHELDIR CYMRU

Cymdeithas amaethyddol yr ucheldir

Gydag aneddiadau yn ddiarffordd ac ar wasgar, mae cymunedau yr ucheldir yn draddodiadol glos ac hunan-ddibynnol. Roedd 83% o'r ymatebwyr yn ymwneud gydag un neu fwy o weithgareddau gwirfoddol yn eu cymunedau. Roedd 60% o'r ymatebwyr yn ymwneud â sioeau lleol, 44% gyda'r mudiad ffermwyr ifanc, 33% gyda'r eglwys leol a 33% gyda neuadd y pentref. Roedd 22% yn weithgar mewn cynghorau cymuned.

Yn ychwanegol i hyn, disgrifiwyd ystod eang o weithgareddau gan yr ymatebwyr gan gynnwys gefnogi'r ysgol leol, cynnal ymweliadau addysgol ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion, darparu mynediad i'r cyhoedd ynghyd â threfnu digwyddiadau elusennol, perthyn i dimau achub mynydd, cefnogi'r gymuned mewn tywydd garw megis clirio'r eira neu canghennau sydd wedi syrthio, a gofalu am gymdogion.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at gynnal y tirwedd/cefn gwlad, gan ddarparu'r wasanaeth hwn yn rhad ac am ddim er mwynhad eraill. Amlinellodd rhai o'r ymatebwyr bwysigrwydd parhad traddodiadau amaethyddol a bridiau brodorol traddodiadol ynghyd â'r iaith Gymraeg, roedd gan 85% o'r ffermwyr yn yr arolwg rhywfaint o allu yn y Gymraeg gyda dros hanner yr ymatebwyr yn rhugl.

JOHN & BERYL VAUGHAN

Mae John a Beryl Vaughan yn rhedeg fferm wartheg eidion a defaid mewn partneriaeth â'u mab Edward ger pentref Llanerfyl yng nghanolbarth Cymru. Mae'r fferm yn codi o 750 troedfedd i 1200 troedfedd ac wedi bod ym meddiant y teulu ers cenedlaethau lawer

Sir Drefaldwyn

Dywedodd John "Bu cymunedau'r ucheldir bob amser yn rhai cryfion, gyda theimlad o berthyn i'r ardal. Mae llawer o ffermwyr yr ucheldir yn teimlo perthynas glos gyda'r tir a'r gymuned. Yn aml, mae ffermwyr sy'n cael eu geni yn ucheldir Cymru yn aros yn ucheldir Cymru, felly mae ein gwreiddiau yn ddwfn, mae hynny'n meddwl y byd i ni."

Ers dros 35 mlynedd mae John a Beryl wedi ymwneud â phob agwedd o fywyd y gymdeithas. Gan gefnogi Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Merched y Wawr, bod yn lywodraethwyr ysgol, cefnogi'r capel lleol a llawer, llawer mwy. Mae Beryl wedi codi arian ar gyfer llawer o elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae John wedi bod yn ynad ers dros 30 mlynedd. Maent yn glir eu barn mae ffermwyr yw sylfaen bywyd cymdeithasol mewn llawer ardal o Gymru.

Gyda'r Gymraeg yn iaith blaenllaw i'r gymuned amaethyddol yn yr ardal, dywedodd Beryl "Mae'r iaith, y dreftadaeth, hanes ein cyndadau, oll mor hynod o bwysig. Ni yw asgwrn cefn y gymdeithas, os nad ydym ni yn mynd i gadw a hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant yna pwy fydd? Mae'n

hanfodol bwysig ein bod yn ei drosglwyddo i'n plant."

Ynghyd â chefnogi cymunedau gwledig, mae John yn argyhoeddedig bod ffermio yn hanfodol i'r economi wledig. "Mae'r ucheldir yn ardal mor fawr o'r Gymru wledig. Heb ddiwydiant amaethyddol hyfyw yn y bryniau, byddwn yn colli'r cymunedau sydd yn byw yno." Pwysleisiodd John bod yna rwydwaith o bobl a busnesau yn ymwneud â rhedeg fferm fynydd, o gontractwyr i fasnachwyr amaethyddol. "Mae'n anhygoel sawl busnes leol mae ffermwyr mynydd yn eu defnyddio. "dyw'r arian 'dyn ni'n ei wneud ddim yn aros ar y fferm ond yn lledu allan, gan gadw'r economi leol i fynd a chreu cyflogaeth."

83%

Roedd 83% o ymatebwyr yn rhan o un neu fwy o weithgareddau gwirfoddol

53%

Roedd 53%, mwy na hanner yr ymatebwyr, yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Mae iaith, cymuned, diwylliant, treftadaeth a'r ucheldir i gyd wedi eu plethu yn ei gilydd."

- Beryl Vaughan

Bygythiadau i ffermio yn ucheldir Cymru

Gyda ffermio yng Nghymru yn gweithredu mewn cyd-destun cyfnewidiol, ceisiodd yr ymchwil ddeall barn ffermwyr ucheldirol ar fygythiadau'r dyfodol.

Yng nghyd-destun Brecsit, nododd ychydig dros chwarter o'r ffermwyr yn yr arolwg (27%) eu bod wedi gwneud newidiadau er mwyn paratoi ar gyfer Brecsit. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at newidiadau i'w systemau ffermio megis newid brid defaid, cynyddu'r gyfran wyna, lleihau neu chodi'r nifer o wartheg a lleihau neu chodi'r nifer o ddefaid.

Dywedodd eraill eu bod wedi gwneud ymdrech i ddeall eu cost o gynhyrchu, lleihau lefelau llog, torri costau, lleihau mewnbynnau a pheidio buddsoddi. Nododd rhai ymatebwyr eu bod wedi ceisio ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion, cynyddu eu hunan-ddibynoldeb gan ganolbwyntio ar systemau glaswellt, pori cylchdro ayyb. Roedd rhai ffermwyr wedi troi tuag at weithgareddau arallgyfeirio gan gynnwys moch, dofednod, llaeth, magu heffrod ynghyd ag ynni adnewyddadwy, twristiaeth a sicrhau mwy o gyflogaeth oddi-ar y fferm.

Parthed bygythiadau'r dyfodol i ffermio yn yr ucheldir, adnabuwyd proffidioldeb y fusnes (85%), cytundebau masnach y dyfodol (84%) a pholisïau'r dyfodol (80%) fel y bygythiadau mwyaf sylweddol. Nododd dwy dreian o'r ffermwyr yn yr arolwg bod newid defnydd tir (67%) a rheoliadau (65%) hefyd yn fygythiadau sylweddol. Nododd hanner yr ymatebwyr bod diffyg isadeiledd gwledig yn fygythiad sylweddol.

Derbyniwyd ystod eang o ymatebion ar fygythiadau posib eraill. Yn ychwanegol i newidiadau i fynediad i farchnadoedd ac ymraniad o'r PAC a diwedd y CTS, gyda'r effeithiau cysylltiedig ar incwm ffermydd, nododd rhai ymatebwyr fygythiadau i'r màs critigol yn y sector brosesu.

Nododd eraill y bygythiad i amaeth yn yr ucheldir o blannu coedwigoedd newydd, ailwylltio, ailgyflwyno rhywogaethau, rhywogaethau mewnlifol ac ymlediad rhedyn. Cyfeiriwyd hefyd at agenda gwrthbwyso carbon cwmnïau mawrion a mudiadau amgylcheddol yn prynu ffermydd Cymru. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu dros chwalfa cymunedau gwledig o ganlyniad i fethiant darparu incwm cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gyda gweithlu amaethyddol yn heneiddio a diffyg cefnogaeth ac isadeiledd i ddenu ieuenctid.

Pwysleisiwyd hefyd y diffyg dealltwriaeth rhwng ffermwyr a gwneuthurwyr polisi 'yng Nghaerdydd', gyda phryderon na fyddai polisïau'r dyfodol yn adlewyrchu anghenion ffermio yn ucheldir Cymru o ganlyniad.

Roedd ymatebwyr wedi sylwi ar lefelau cynyddol o ymddygiad wrthgymdeithasol yng nghefn gwlad, gyda rhai yn ei gysylltu gyda'r lefelau cynyddol o fynediad hamdden, gyda phryderon penodol megis aflonyddu gan gŵn, tipio sbwriel, gwersylla gwyllt a throseddu gwledig a lladrad.

Roedd nifer o ymatebwyr yn mynegi pryder dros iechyd a lles anifeiliaid, gan gyfeirio at TB gwartheg, y clafr a drogod. Nodwyd hefyd peryglon yn gysylltiedig â newid i'r hinsawdd gan gynnwys tanau gwyllt o ganlyniad i danbori.

Polisïau'r dyfodol ar gyfer ffermio yn Ucheldir Cymru

Gofynnwyd barn ffermwyr ar bolisïau'r dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddisodli'r PAC. Bydd hyn yn seiliedig ar y Taliad Ffermio Cynaliadwy a ddaw o weithredu i ddarparu allbynnau amgylcheddol, gyda Chymorth Busnes fydd yn canolbwyntio ar gyngor, buddsoddiant cyfalaf a datblygu sgiliau.

Gofynnwyd i ffermwyr feirniadu cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng nghyd-destun mynd i'r afael ag anghenion penodol ffermio yn yr ucheldir. Dim ond 18% ddaeth i'r casgliad bod y cynigion yn dda iawn neu'n eithaf da, gyda dros dwbl y rhif hwnnw, 37% yn ei alw yn wael neu'n wael iawn.

Gofynnwyd i ffermwyr pa mor bwysig oedd cynnwys ystod o fesurau ym mholisïau amaeth y dyfodol yng Nghymru:

- **Roedd 98% o ymatebwyr yn teimlo ei fod naill-ai yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig bod polisïau'r dyfodol yn cynnwys mesurau i sicrhau bod ffermwyr yn medru gwneud bywoliaeth rhesymol**
- **Roedd cyfran debyg yn teimlo y dylai fod yna fesurau i sicrhau cynhyrchu bwyd ac i sicrhau bod gan brynwyr gyflenwad sefydlog o fwyd fforddiadwy**
- **Teimlodd 96% o'r ymatebwyr bod mesurau i ddarparu cymunedau gwledig hyfyw yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Datganodd 94% eu bod yn teimlo bod mesurau i gynnal tirweddau gwledig yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Nododd 91% o'r ymatebwyr bod mesurau i leddfu anwadalwch yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Nododd 89% bod mesurau i wneud ffermio yn fwy cynhyrchiol yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**
- **Roedd 85% yn ystyried mesurau i ddarparu allbynnau amgylcheddol; ac**
- **83% yn ystyried mesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig**

Derbyniwyd ystod eang o ymatebion parthed y 'gofyn pennaf' o Lywodraeth Cymru ar gyfer ffermio yn ucheldir Cymru. Y mwyaf poblogaidd yn eu plith oedd yr angen i barhau gyda'r CTS neu rhyw ffurf o gefnogaeth gwaelodlin i ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer busnesau fferm.

Gwnaeth lawer o ymatebwyr gydnabod yr angen am well cydbwysedd rhwng amcanion amgylcheddol, cynhyrchu bwyd, cynhyrchiant ac amcanion ehangach. Roedd hefyd galw am bolisïau i gefnogi pobl ifanc a mynediad cyfartal i'r cynlluniau ar gyfer ffermwyr tenant a ffermwyr tir comin.

Gofynnodd y ffermwyr hefyd i Lywodraeth Cymru wrando arnynt yn fwy trwy'r broses o ddylunio'r cynllun, gyda mwy o werth yn cael ei osod ar 'yr hyn sydd yno yn barod' a dealltwriaeth well o'r hyn sydd angen ar systemau ffermio ucheldirol. Nododd ymatebwyr yr angen am bolisïau ymarferol a dull llai cyfarwyddiadol, llai o ruban coch a rheoliadau, gyda phryder am arolygiadau yn straen amlwg ar ffermwyr.

Pwysleisiodd eraill na ddylai unrhyw ddarpar gynllun greu 'loteri côd post' ar gyfer cymorth, fel mae llawer wedi profi trwy ddull cyfredol Glastir, gydal llawer llai o ffocws ar yr angen am arbenigwyr ac ymgynghorwyr.

Defnyddiodd eraill y cyfle i ofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod y buddion ehangach a ddarperir gan ffermwyr, gan gynnwys ein tirweddau Cymraeg eiconig, cyflogaeth gwledig, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig, a'r angen i sicrhau lefel sylfaenol o incwm mewn ardaloedd gwledig os yw'r diwydiant yn mynd i fod yn atyniadol i'r genhedlaeth nesaf.

Adlewyrchwyd pryderon am newidiadau mewn defnydd tir hefyd, gyda nifer o ymatebwyr yn gofyn i arbed rhag ailwylltio, ailgyflwyno rhywogaethau a phlannu coedwigoedd ar raddfa eang.

Beth mae hyn yn ei olygu i ffermio yn ucheldir Cymru

Mae arolwg Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru NFU Cymru yn atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r rhan amlweddog y mae ffermio ucheldirol yn chwarae yng Nghymru. Mae'r arolwg yn destament i angerdd ac ymroddiad ffermwyr yr ucheldir i'w hanifeiliaid, y tir, eu cymunedau, traddodiadau a'r iaith Gymraeg.

Mae pwysigrwydd perthynol cynhyrchu bwyd a gwerthiant a chymorth uniongyrchol i hyfywedd busnesau fferm wedi eu tanlinellu ynghyd â'r costau a heriau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â ffermio yn rhai o dirweddau anoddaf Cymru.

Parthed polisïau'r dyfodol, mae'n rhaid gwneud mwy i ennyn hyder ffermwyr yr ucheldir. Mae'r ffermwyr wedi adnabod llawer o ddiffygion yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig sydd yn gweld cefnogaeth uniongyrchol (CTS) sydd yn darparu sefydlogrwydd ac yn lleddfu anwadalwch yn cael ei ddisodli gan ddull sydd yn gwobrwyo allbynnau amgylcheddol. Mae'r ymchwil yn tanlinellu'r ffaith bod ffocysu ar allbynnau amgylcheddol yn peryglu mynediad cyfartal i'r cynllun ar gyfer ffermwyr tenant, tra ar yr un pryd bydd cefnogaeth yn cael ei dynnu o'r ffermwr gweithredol.

Mae ffermwyr yn gweld ei hunain mewn sefyllfa dda i ddarparu ystod o nwyddau amgylcheddol ac i leihau effaith ffermio ar yr amgylchedd. Mae angen cydnabod y gwaith maent wedi ei wneud yn barod a'i wobrwyo yn well yn y dyfodol. Hefyd mae'r angen i gydnabod arbenigedd ffermwyr wrth ddylunio, gweithredu a darparu cynlluniau yn ymddangos fel thema cyson, gydag arbenigedd (a chostau) eraill (ymgynghorwyr) yn destun amheuaeth gan nifer o ymatebwyr.

Mae arallgyfeirio ynghyd â chyflogaeth oddi-ar y fferm yn ffrydiau incwm pwysig ar gyfer llawer o ffermydd ucheldir Cymru, ond adnabuwyd y rhwystrau sydd yn atal arallgyfeirio. Tra bod yna gyfle i lywodraeth leddfu'r rhwystrau yma, mae angen cydnabod nad yw arallgyfeirio yn ffisig at bob clwyf. Mae angen dealltwriaeth well o'r potensial sydd heb ei wireddu.

Yn ychwanegol i heriau Brecsit, cytundebau masnach a pholisïau'r dyfodol, mae'n ymddangos bod ffermwyr ucheldir Cymru yn adnabod bygythiadau i ffermio, cymunedau gwledig a'r iaith Gymraeg, wrth i ffermio gael ei ddisodli i gwrdd ag amcanion polisi ehangach neu newidiadau strwythurol/demograffeg eraill.

Yn ei gyfanrwydd, mae'r ymchwil hwn wedi agor y drws i weld rhan ffermwyr ucheldir Cymru a'u barn ar yr hyn sydd angen os yw cymunedau ucheldir Cymru yn mynd i oroesi a bod mewn sefyllfa i ddarparu allbynnau gwerthfawr i'n cymdeithas yn y dyfodol.

Argymhellion allweddol

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i warchod amaeth yr ucheldir ar gyfer y buddion amaethyddol, amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol mae'n darparu, gan ddilyn y polisïau a'r gweithredoedd canlynol:

Mesurau sefydlogrwydd – yng nghyd-destun ansicrwydd dwys, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn darparu sefydlogrwydd ar gyfer y diwydiant trwy gynnwys mesur o gefnogaeth gwaelodlin ym mholisïau amaeth y dyfodol, sydd yn cydnabod y rhan mae amaeth yn ei gyflawni fel sylfaen economaidd ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae'n rhaid i bolisïau'r dyfodol gydnabod yr amrywiaeth sydd rhwng systemau amaethyddol, tirffurf a hinsawdd sydd yn bodoli yng Nghymru.

Amcanion polisi cytbwys – Mae'n rhaid i bolisïau amaeth y dyfodol gyffwrdd â set o amcanion llawer ehangach na'r rhai a gynigir ar hyn o bryd, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod ffermwyr yn gwneud bywoliaeth rhesymol gan osod sylfaen i gynhyrchu bwyd a'r gefnogaeth barhaus i fwyd diogel, fforddiadwy o ansawdd uchel, a darparu cymunedau gwledig hyfyw a chynnal tirweddau gwledig.

Targedi ffermwyr gweithredol –Dylai cynlluniau'r dyfodol felly cael eu targedi at ffermwyr gweithredol sydd yn ysgwyddo risgiau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd. Mae angen sylw ychwanegol ar fynd i'r afael â'r materion penodol o alluogi mynediad ar delerau cyfartal ar gyfer ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin.

Gwobrwyo darpariaeth amgylcheddol - Mae ffermwyr yn ucheldir Cymru wedi, ac yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau amgylcheddol sylweddol ar eu ffermydd. Mae'n rhaid gwobrwyo'r gwaith hwn yn llawn mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol, gan gydnabod bod cynefinoedd yr ucheldir yn ddibynnol ar reolaeth drwy eu pori. Ni ddylai fod yna unrhyw 'loteri cod post' ar gyfer cefnogaeth a dylai maint y taliadau fynd tu hwnt i gyfrifiadau o 'gostau a ysgwyddwyd ac incwm a gollwyd.'

Cydnabod arbenigedd ffermwyr – dylai polisïau ffermio'r dyfodol cael eu dylunio mewn cydweithrediad â ffermwyr sydd yn deall y tir ac yn gwybod beth sydd yn ymarferol bosib ar y ddaear.

Cefnogi arallgyfeirio, blaengarwch a datblygiad cadwyni cyflenwi Cymreig – mae'n rhaid i bolisïau datblygu gwledig ac economaidd y dyfodol gynnwys ffocws ar ffermio yng Nghymru a darparu llwyfan blaengar i gefnogi ffermwyr i ddatblygu ystod o gyfleoedd busnes gan gynnwys ychwanegu gwerth i gadwyni cyflenwi Cymreig. Mae hefyd rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill geisio adeiladu cadwyni cyflenwi hydwyth drwy eu polisïau caffael.

Mynd i'r afael ag isadeiledd gwael – Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i fynd i'r afael â'r problemau isadeiledd sydd wedi bodoli ers blynyddoedd megis band-eang gwledig, cysylltiadau i'r grid ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r costau a'r effeithiau ar fusnesau fferm yng Nghymru a ddaw o fynediad hamdden, ymddygiadau gwrthgymdeithasol a throseddu gwledig gyda chod a ellir ei erlyn a buddsoddiadau mewn isadeiledd addas, yn enwedig mewn ardaloedd 'pot mêl'.

Fframwaith rheoliadol sydd yn galluogi – mae rheoliadau yn ychwanegu costau, yn tanseilio hyder busnesau ac yn medru arwain at ganlyniadau annisgwyliadwy (er enghraifft y golled o fuchesi gwartheg sugno o ganlyniad i'r rheoliadau PPN). Pan ystyrir i reoliadau fod yn angenrheidiol, dylent fod yn gymesur ac wedi eu targedi, gan ddarparu datrysiadau lleol i broblemau lleol. Mae'n rhaid mynd i'r afael â rhwystrau yn y fframweithiau polisi ehangach, megis cynllunio a chaniatâd, er mwyn galluogi datblygiad busnes ffermydd, arallgyfeirio amaethyddol ac adeiladu tai.

Creu fframwaith penderfynol er mwyn arwain penderfyniadau ar newid defnydd tir – mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall yr effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor a ddaw o'i bolisïau (er enghraifft dadgarboneiddio), prosiectau ailwylltio a ailgyflwyno rhywogaethau– mae gan bob un o'r rhain botensial i newid defnydd tir i ffwrdd o amaeth, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae angen fframwaith penderfynol er mwyn sicrhau dull cytbwys a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer cymunedau gwledig.

Cefnogi ffermwyr ifanc – bydd mynd i'r afael â'r argymhellion uchod yn cefnogi dyfodol economaidd hyfyw ar gyfer ffermio yn ucheldir Cymru, ar gyfer y genhedlaeth sydd ohoni a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n rhaid hefyd ystyried mesurau i alluogi olyniaeth a chyfleoedd ar gyfer newydd-ddyfodiaid/ffermwyr ifanc trwy fframwaith polisïau'r dyfodol.

Gweledigaeth dros

FFERMIO YN UCHELDIR CYMRU

#GweledigaethIUcheldirCymru

NFU Cymru
Tŷ Amaeth
Maes y Sioe Frenhinol
Llanelwedd, Powys
LD2 3TU

www.nfu-cymru.org.uk

#NiYwFfermioCymru
#WeAreWelshFarming

© NFU Cymru 2020